



Eich cyf/Your ref P-06-1369
Ein cyf/Our ref JMEWL/01620/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Hydref 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 26 Medi, yn holi fy marn ynglŷn â'r ddeiseb yn galw am ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig ar gyfer lleoedd yng Nghymru.

Mae gwarchod enwau lleoedd Cymraeg yn rhan bwysig o waith Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, gyda'n [Rhaflen Lywodraethu 2021 i 2026](#) yn nodi y byddwn yn 'gweithredu i amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg' a'r [Cytundeb Cydweithio](#) gyda Phlaid Cymru'n datgan y byddwn yn 'gweithredu i sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'.

Hyd yn hyn, mae ein ffocws wedi bod ar y cyfoeth o enwau sydd gennym ar gyfer nodweddion daearyddol, daliadau tir, ac eiddo, gan gynnwys ffermydd a thai. Mae llawer o'r rhain yn hanesyddol. Drwy weithio ar y meysydd hyn, daw i'r amlwg mor gymhleth yw'r ffactorau sy'n effeithio ar enwau lleoedd, gydag ystyriaethau gwahanol ynghlwm wrth wahanol fathau o enwau. Mae hyn yr un mor berthnasol i enwau aneddiadau. Mae enwau pentrefi, trefi a dinasoedd Cymru, er enghraifft, wedi datblygu dros gannoedd os nad miloedd o flynyddoedd, ac er bo'r rhan fwyaf o'r enwau ar aneddiadau yng Nghymru â'u tarddiadau yn y Gymraeg, mae nifer ohonynt yn deillio o Saesneg, Ffrangeg, Lladin, Gwyddeleg neu Norseg.


Aiff pethau'n fwy cymhleth pan fod yna enwau gwahanol yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer yr un dref neu ddinas. Mae gan bob tref, pentref a dinas ei hanes unigryw ei hun, ac mae'r hanes hwnnw'n perthyn i sut mae ei enw neu enwau wedi gwreiddio, datblygu a newid dros y canrifoedd. Mewn rhai o'r achosion hyn, nid yw'n eglur bob tro beth yw'r enw "gwreiddiol" ar anheddiad penodol.

Mewn gohebiaeth flaenorol atoch ar bwnc tebyg, fe wnes i grybwyll enghraifft Caerdydd – mae'r enw modern Cymraeg *Caerdydd* yn dod o'r ffurf Gymraeg ganoloesol, *Caerdyf*, sydd yn y Saesneg wedi datblygu'n *Cardiff* (*gyda'r 'f' Cymraeg yn cael ei drosi'n 'ff' Saesneg*). Byddai'n anodd pennu, felly, pa un o'i ffurfiau modern sy'n glynu agosaf at y ffurf "wreiddiol" yn yr achos hwn. Ac o hepgor yr enw 'Saesneg' modern, gellid dadlau ein bod hefyd yn dileu cysylltiad â ffurf ganoloesol Gymraeg enw'r ddinas. Yr hyn yr wyf i wedi'i ddysgu wrth ymdrin ag enwau lleoedd yw bod gan bob enw unigol ei hanes unigryw.

Mewn rhai enghreifftiau, lle mae ynganiad enwau Cymraeg a Saesneg ar dref neu ddinas mor debyg i'w gilydd bod dadl gref dros lynu at un sillafiad, rwy'n credu y gall wneud synnwyr i lynu wrth y sillafiad Cymraeg. Yn hyn o beth, byddwn yn cefnogi'r egwyddor a hyrwyddir gan Gomisiynydd y Gymraeg, sef y dylem anelu at un ffurf pan fod ond ambell i lythyren o wahaniaeth rhwng y ffurfiau Cymraeg a'r rhai Saesneg. Yn y cyd-destun hwn, mae ein [polisi Seilwaith leithyddol y Gymraeg](#) yn nodi'r angen i hyrwyddo a phwysleisio statws enwau lleoedd sydd wedi eu safoni, a chodi ymwybyddiaeth o'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, sy'n cael ei chynnal gan y Comisiynydd. Ond mae'r rhain yn faterion lleol yn aml iawn - rydyn ni wedi gweld yn y gorffennol sut y gall newid dim ond un lythyren mewn enw tref neu bentref, neu ychwanegu cysylltnod er mwyn cysoni orgraff, arwain at anghydweld chwyrn mewn cymunedau lleol. Rwy'n dal i gredu, felly, bod angen canfod ffordd o adlewyrchu'r ystod eang o safbwyntiau a goblygiadau sy'n bodoli.

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio'n benodol at achosion Parc Cenedlaethol Eryri a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn y bôn, sefydliadau annibynnol yw'r rhain sydd wedi cynnal ymarferion i geisio barn yn lleol ar y cynigion ar gyfer eu henwi. Er enghraifft, yn ystod y ddwy flynedd cyn ailenwi, cynhaliodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sgysrsiau gyda gwirfoddolwyr, trigolion lleol, ymwelwyr a busnesau ynglŷn â'i hunaniaeth a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn barc cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys panel cyfeirio rhanddeiliaid, cynulliad dinasyddion, a phroses ymgynghori ar y brand. Rwyf i o'r farn y byddai angen ymgysylltu trylwyr a sgwrs gyhoeddus agored ar gyfer unrhyw benderfyniad o'r math hwn, am ei fod yn mynd at wraidd democratiaeth leol a sut mae pobl yn gweld eu hunain.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language